



Cofnodion Heb eu Cadarnhau Cyfarfod y Bwrdd ar 25 Medi 2025
Cynhaliwyd yn 3.7 CQ2 ac yn electronig trwy Microsoft Teams
Wedi'i ffrydio'n fyw ar y Rhyngwyd

Yn bresennol:		
Clare Jenkins (Cadeirydd y Cyfarfod)	(CJ)	Is-gadeirydd y Bwrdd, Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Claire Birchall	(CB)	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Ansawdd a Llywodraethu Integredig
Huw David	(HD)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol)
Sian Griffiths	(SG)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil
Meng Khaw	(MK)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
Tamsin Ramasut	(TR)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Cydraddoldeb ac Amrywiaeth) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol
Angela Williams	(AW)	Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Gweithrediadau a Chyllid
Yn Bresennol:		
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Dirprwy Bennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Liz Heath	(LH)	Cynrychiolydd Ochr Staff
Neil Lewis	(NL)	Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau:		
Pippa Britton	(PB)	Cadeirydd y Bwrdd
Claire Sullivan	(CS)	Cynrychiolydd Ochr Staff
Kate Young	(KY)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Dechreuodd y cyfarfod am 11:15



Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/1	Croeso ac Ymddiheuriadau
<p>Croesawodd CJ bawb i'r cyfarfod a gynhaliwyd wyneb yn wyneb yn CQ2 ac estynnodd groeso cynnes i'r rhai a oedd yn gwyllo'r trafodion ar-lein.</p> <p>Nododd y Bwrdd yr ymddiheuriadau fel y rhestrwyd uchod.</p>	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/2	Datganiadau o Fuddiant
<p>Gofynnodd CJ am Ddatganiadau o Fuddiant heblaw'r rhai a gofnodwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiant. Nid oedd unrhyw ddatganiadau eraill.</p>	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/3	Iechyd Rhywiol - Ymchwiliad Dwfn
<p>Wrth gyflwyno'r Ymchwiliad Dwfn i Iechyd Rhywiol, diolchodd CJ a TC i ZC am ei gwaith yn y maes hwn a dymuno'n dda iddi yn ei hymddeoliad. Adleisiodd MK hyn a rhoddodd grynodedb byr i'r Bwrdd o'r gwaith arloesol yng Nghymru yr oedd ZC wedi'i arwain dros nifer o flynyddoedd.</p> <p>Rhoddodd ZC gyflwyniad cynhwysfawr i'r Bwrdd ar weithgareddau a strategaeth iechyd rhywiol yng Nghymru. Fel rhan o'r cyflwyniad hwn, amlygodd y pwyntiau allweddol canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Effaith eang iechyd rhywiol ar lesiant corfforol a meddyliol a beichiau cymdeithasol a gofal iechyd iechyd rhywiol gwael, yn enwedig mewn perthynas â heintiau fel HIV pan gânt eu diagnosisio'n hwyr. Nododd fod y gwaith o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag Iechyd Rhywiol yn cwmpasu addysg, Gofal Sylfaenol, Polisi ac Ymchwil, gydag ymdrechion cydweithredol ar draws Cyfarwyddiaethau a phartneriaid allanol i wneud y gorau o ganlyniadau.• Amlinelliad o'r fframwaith arfaethedig ar gyfer iechyd rhywiol, gyda'r nod o sicrhau llesiant gorau posibl drwy gydol oes, wedi'i arwain gan safonau ansawdd megis diogelwch, amseroldeb, effeithlonrwydd a thegwch. Pwysleisiodd ZC bwysigrwydd mapio gweithgareddau cyfredol, dyrannu adnoddau a gweithio mewn partneriaeth i ddarparu gwasanaethau effeithiol.• Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd darparu addysg, hyfforddiant, darparu gwybodaeth a mynd i'r afael â gwybodaeth anghywir; roedd yn monitro newid ymddygiad, ymgysylltiad ac yn monitro data ar gyfer cynllunio gwasanaethau.• Cyfeiriad at yr aliniad strategol â rhaglenni Llywodraeth Cymru a thargedau rhyngwladol a oedd yn cynnwys targedau dileu Heintiau a Drosglwyddir yn Rhywiol Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer 2030. Gyda grwpiau goruchwylio ar gyfer Cynllun Gweithredu HIV i Gymru, dileu Hepatitis B a C a Chynllun Iechyd i Fenywod. Roedd Cynllun Blaenoriaethau Iechyd Rhywiol yn cael ei baratoi ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru.• Dangosodd data a amlygwyd gynnydd bach mewn diagnosisu o heintiau a drosglwyddir yn rhywiol, a briodolir i gynnydd mewn profion, gyda chyfraddau positifrwydd yn dechrau gostwng. Nododd ostyngiad pryderus yn y nifer sy'n defnyddio dulliau atal cenhedlu gwrthdroadwy hir-weithredol, sy'n gysylltiedig â gwybodaeth anghywir a chynnydd cyfatebol mewn cyfraddau erthyliad, yn enwedig ymhlith grwpiau nad ydynt yn eu harddegau.	



- Integreiddiwyd y Rhaglen Iechyd Rhywiol o fewn y Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy (CDIHP) yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan weithio gyda'r Rhaglen Iechyd Cynhwysiant a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar boblogaethau heb ddigon o wasanaeth, sef ardaloedd sydd mewn mwy o berygl.
- Esblygiad gwefan Cymru Chwareus, ei tharddiad mewn ymgyrchoedd HIV a'i rôl bresennol o ran darparu gwybodaeth a gwasanaethau dibynadwy, gan gynnwys y gwasanaeth profi a phostio, dosbarthu condomau a'r cynllun cerdyn C ar gyfer pobl ifanc. Rhannodd ystadegau defnydd, megis 8,000–8,500 o archebion citiau prawf a 3,500 o geisiadau am gondomau y mis ac amlinellodd y gefnogaeth a ddarperir i ddefnyddwyr gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol. Mae dros 28,900 o becynnau wedi cael eu dosbarthu trwy wasanaethau cymunedol ers mis Ionawr 2024.
- Mentrau parhaus a rhai yn y dyfodol, gan gynnwys ehangu mynediad ar-lein i PrEP, datblygu llwybrau atal cenhedlu, ymgysylltu â defnyddio sylweddau a chymunedau traws a pheilota darpariaeth fferyllfeydd cymunedol. Amlygodd ZC hefyd yr heriau wrth fonitro Chemsex a'r angen am systemau rheoli achosion gwell.

Diolchodd CJ i ZC am y cyflwyniad a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.

Gofynnodd CB am fynediad at gyngor clinigol ar gyfer protocolsu triniaeth. Ymatebodd ZC fod canllawiau clinigol wedi'u darparu drwy Fwrdd Ymgynghorol Iechyd Rhywiol Cymru, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff proffesiynol perthnasol a'r llywodraeth, a bod pob canlyniad prawf ac ôl-brofion wedi'u rhwydweithio â gwasanaethau iechyd rhywiol lleol ar gyfer dilyniant.

Holodd SG am yr integreiddio â gofal sylfaenol a rheoli data. Esboniodd ZC fod y tîm yn gweithio'n agos gyda phractisau meddygon teulu, gofal sylfaenol a rhwydweithiau fferyllfeydd, gan gynnwys defnyddio practisau meddygon teulu fel allfeydd pecynnau cymunedol a chymryd rhan mewn diwrnodau hyfforddi. Cydnabu ZC yr her o fesur canlyniadau oherwydd cyfyngiadau deddfwriaethol ond nododd ymdrechion parhaus i gysylltu systemau data er mwyn rheoli achosion yn well.

Gofynnodd LH am fonitro ymwrthedd gwrthficrobaidd ar gyfer gonorea a'r cysylltiad â fferyllfeydd a chlinigau. Cadarnhaodd ZC gydweithrediad â'r labordy yng Nghaerdydd a'r tîm micro-ymwrthedd, gan egluro bod canlyniadau gonorea positif o'r gwasanaeth prawf a phost wedi'u cyfeirio ar gyfer profion ymwrthedd pellach a'u hintegreiddio i systemau gwyliadwriaeth.

Gofynnodd TR pam fod defnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol wedi'u grwpio gyda'i gilydd ac am strwythur clinigau iechyd rhywiol. Eglurodd ZC fod pob clinig wyneb yn wyneb yn cael ei ddarparu gan bartneriaid, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu clinig rhithwir. Esboniodd hefyd y gorgyffwrdd mewn poblogaethau a wasanaethir gan raglenni camdefnyddio sylweddau ac iechyd rhywiol, gan gyfiawnhau eu hintegreiddio i fynd i'r afael ag anghenion cyfannol.

Ychwanegodd MK fod strwythur y rhaglen iechyd cynhwysiant wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghenion sy'n gorgyffwrdd mewn poblogaethau agored i niwed, megis y rhai mewn carchardai neu sy'n profi digartrefedd, a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar gynnydd tuag at system rheoli achosion iechyd rhywiol unedig, gan nodi cyllid diweddar ar gyfer y cam datblygu nesaf.

Holodd HD ynghylch gallu'r tîm i gyrraedd yr holl boblogaethau targed ac effeithiolrwydd meithrin gallu drwy bartneriaethau. Dywedodd ZC fod swyddi dros dro diweddar wedi galluogi mwy o allgymorth, yn enwedig yn ystod digwyddiadau fel wythnosau Pride a Glasfyrwyr a disgrifiodd y cydweithio parhaus â gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cam-drin domestig a phartneriaid eraill i wneud y mwyaf o'r cyrhaeddiad a'r effaith.

Diolchodd CJ i ZC am y sesiwn ddiddorol ac addysgiadol.

O ran y System Rheoli Iechyd Rhywiol, cytunodd MK i adrodd i'r Bwrdd ar gynnydd yn dilyn cwblhau'r cyfnod alffa, ym mis Ionawr neu fis Mawrth.

Cam Gweithredu: LB/MK

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/4	Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
--	------------------------------------

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/4.1	Adroddiad y Prif Weithredwr
--	------------------------------------

Wrth gyflwyno Adroddiad y Prif Weithredwr, amlygodd TC uchafbwyntiau allweddol:

- Dynodi Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ail Ganolfan Gydwethio Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), y tro hwn yn canolbwyntio ar Ecwiti Iechyd Digidol. Canmolodd TC ac IB Alisha Davies am ei harweinyddiaeth yn y maes hwn a nodwyd y byddai'r ganolfan newydd yn integreiddio â'r Ganolfan Gydwethredol Bresennol ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.
- Digwyddiad lansio wedi'i gynllunio gyda'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant.
- Diweddariad ar Ymarfer Pegasus, ymarfer parodrwydd ar gyfer pandemig ledled y DU, gan nodi cwblhau cam un a diolch i Tom Fowler, Wendi Shepperd a Huw Williams am eu harweinyddiaeth a'u cydgysylltiad. Dywedwyd wrth y Bwrdd y byddai'r hyn a ddysgwyd o gam un yn llywio'r ymateb i gam dau.
- Y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol diweddar a gynhaliwyd yng Nghaerfyrddin, a oedd yn cynnwys cyflwyniadau gan y timau clefydau heintus a microbioleg, yn ogystal â Diabetes UK Cymru. Diolchwyd i Stefanie Humphries, PV a LB am drefnu'r digwyddiad.
- Roedd tair nyrs o'r sefydliad yn rownd derfynol Gwobrau Blwyddyn Coleg Brenhinol y Nyrsys, a disgwyli'r canlyniadau ym mis Tachwedd.
- Diweddariad ar Ymchwiliad Cyhoeddus COVID y DU, gan nodi y byddai'r adroddiad ar gyfer Modiwlau 2 i 2C, sy'n ymdrin â gwneud penderfyniadau llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig, yn cael ei gyhoeddi ym mis Tachwedd. Roedd trefniadau ar waith i uwch staff adolygu'r adroddiad o dan embargo cyn ei gyhoeddi.

Llongyfarchodd y Bwrdd IB a'r Gyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol ar ennill dynodiad Canolfan Gydwethio Sefydliad Iechyd y Byd.

Nododd y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr ac Adroddiadau'r Gyfarwyddiaethau a derbyniodd **sicrwydd** o'r Adroddiadau a'r trafodaethau yng nghyfarfod y Bwrdd.

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/4.2	Trosolwg Diweddaraf o Iechyd y Cyhoedd
--	---

Cyflwynodd IB y Dangosfwrdd Trosolwg Iechyd y Cyhoedd diweddaraf, gan amlygu'r canlynol:



- Data nifer yr ysmygwyr gan Arolwg Cenedlaethol Cymru, a ddangosodd ostyngiad i 10%. Rhybuddiodd fod cyfraddau ymateb i arolygon yn gostwng, gan effeithio ar ddibynadwyedd data a nododd yr angen i gysoni gwahaniaethau rhwng data cenedlaethol a data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.
- Dim tueddiadau arwyddocaol mewn ymddygiadau iach eraill a soniodd fod cynnydd blaenorol mewn yfed problemus wedi tawelu, er nad oedd yn glir a oedd hyn oherwydd problemau casglu data neu newidiadau yn y byd go iawn.
- Roedd dangosyddion iechyd meddwl a llesiant yn sefydlog, tra bod pwysau costau byw yn parhau i effeithio ar tua thraean o'r boblogaeth, yn enwedig o ran biliau tai a chyfleustodau.
- Lefelau uchel parhaus o anweithgarwch economaidd oherwydd salwch hirdymor a disgrifiodd cydweithio parhaus ag Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i fynd i'r afael ag iechyd y gweithlu ac ymestyn cefnogaeth i'r gymuned.
- Tueddiadau cadarnhaol parhaus mewn ymwrthedd gwrthficrobaidd a therfynodd drwy bwysleisio y gallai gwelliannau araf yn yr amseroedd rhwng atgyfeirio a thriniaeth fod yn cyfrannu at ostyngiadau mewn disgwyliad oes iach, gan annog ymdrechion pellach ar draws y system.

Diolchodd CJ i IB am y trosolwg a gwahoddodd gwestiynau gan y Bwrdd.

Gofynnodd TR am eglurder ynghylch sut y dehonglwyd y dangosyddion ymddygiad iach ac a ddylid ystyried ffigurau statig yn llwyddiant, neu'natal tueddiadau negyddol. Cydnabu IB y pwynt hwn a byddai'n myfyrio ar hyn gydag angen ystyriaeth bellach ar y dull gweithredu.

Cam Gweithredu: IB

Ychwanegodd JM at y pwynt hwn, gan wneud sylw bod sefydlogrwydd mewn cyfraddau ysmegu yn cynrychioli'r senario 'lleiaf gwaethaf', gan bwysleisio'r angen am ymdrechion atal parhaus, yn enwedig yng ngoleuni cyfraddau clefyd cardiofasgwlaidd cynyddol.

Holodd NE am y newidiadau amllder mewn graffiau llesiant meddyliol a chymdeithasol, yn benodol ar gyfer plant, gydag IB yn egluro bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) wedi lleihau amllder arolygon yn twriadol ar ôl COVID. Dilynwyd hynny gan drafodaeth ar bwysigrwydd cydweithio ar draws y system, gan gynnwys gyda chlinigwyr, i fynd i'r afael â phenderfynyddion amgylcheddol a chymdeithasol iechyd a'r angen i asesu a oedd yr ymdrechion presennol yn ddigonol i effeithio ar dueddiadau disgwyliad oes iach.

Rhoddodd MK y wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar faterion iechyd cyhoeddus cyfredol:

- Adroddwyd ar ddau ddigwyddiad mawr: tanau gwyllt yn ardal y Filtir Werdd yng Ngwent a effeithiodd ar 150 hectar, gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu cyngor arbenigol ac asesiad ansawdd aer; ni adroddwyd am unrhyw effeithiau ar iechyd a daeth y digwyddiad i ben (ar 5 Medi 2025) ar ôl i'r tân gael ei ddiffodd.
- Disgrifiodd ddigwyddiad cyflenwad dŵr yng Ngwaith Trin Dŵr Bretton yn Sir y Fflint, a waethygodd i fod yn ddigwyddiad mawr a effeithiodd ar tua 20,000 o eiddo; bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn rhan o'r gwaith cydlynu a chyfathrebu nes i'r sefyllfa gael ei datrys a daeth y digwyddiad i ben (ar 17 Awst 2025).
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'n cyflwyno brechiad rheolaidd rhag brech yr ieir (varicella) i'r amserlen imiwneiddio plant genedlaethol o fis Ionawr 2026, yn dilyn cyngor y Cydbwyllgor ar Frechu ac Imiwneiddio (JCVI).

Gofynnodd HD am sicrwydd ac amserlenni ar gyfer cyflwyno'r rhaglen frechu newydd yn erbyn brech yr ieir; cadarnhaodd MK fod tîm y rhaglen clefydau y gellir eu hatal gan frechlyn eisoes yn ymwneud â chynllunio gweithredu a datblygu adnoddau i gefnogi'r broses gyflwyno gan bartneriaid mewn Byrddau Iechyd lleol.

Diolchodd CJ i IB ac MK am y wybodaeth. Craffodd a thrafododd y Bwrdd y Dangosfwrdd Trosolwg Cyflym a chymerodd **sicrwydd** o'r adroddiad.

Iechyd Cyhoeddus Cymru | Adroddiad Perfformiad Integredig (Mis 3) ac Adroddiadau Cyllid
2025.09.25/4.3

Cyflwynodd AW y Mewnwelediad Perfformiad a thynnodd sylw'r Bwrdd at bedwar maes allweddol lle mae perfformiad yn parhau i fod yn heriol: absenoldeb oherwydd salwch, torri data personol, digwyddiadau a adroddir yn allanol a chyfraddau cau digwyddiadau. Roedd yr adroddiad wedi'i strwythuro'n bedair adran, roedd y papur esboniadol yn darparu asesiad o feysydd â heriau perfformiad parhaus ac yn cefnogi'r prif becyn gwybodaeth.

Cyflwynodd pob Gweithredwr ddiweddariadau allweddol o'u Cyfarwyddiaethau priodol.

Llywodraethu ac Atebolrwydd

Adran Pobl

Amlygodd NL y canlynol o adran Pobl yr adroddiad:

- Gostyngiad bach yn lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod mis Awst, ond nodwyd bod y lefelau'n parhau uwchlaw'r targed, gyda salwch hirdymor yn cyfrif am 70% o'r diwrnodau a gollwyd.
- Gwaith rhagweithiol ac adweithiol parhaus i fynd i'r afael ag absenoldeb oherwydd salwch, gan gynnwys cydweithio a chyfarwyddiaethau, cefnogaeth i reolwyr llinell ac archwiliad parhaus i roi gwybodaeth bellach. Byddai adroddiad mwy manwl yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Gweithredol Busnes a'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn canolbwyntio ar hyn.
- Amlygodd NL wariant asiantaeth fel maes ffocws newydd mewn llywodraethu pobl, gydag adroddiad ar wariant asiantaeth gweinyddol a chlerigol i'w ddarparu ar ôl cyfarfod y Tîm Gweithredol Busnes ym mis Hydref.

Gofynnodd TC am dadansoddiad absenoldeb salwch (30% tymor byr, 70% tymor hir), yn benodol a oedd y gymhareb hon yn gyson dros amser a sut roedd yn cymharu â thueddiadau ehangach mewn cymdeithas, gyda diddordeb penodol mewn deall faint o absenoldeb hirdymor oedd oherwydd straen sy'n gysylltiedig â gwaith o'i gymharu â chyflyrau tymor hir.

Gan ychwanegu at hyn, awgrymodd NL y byddai dadansoddiad dyfnach o dueddiadau absenoldeb salwch hirdymor dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys cymhariaeth â data sector cyhoeddus ehangach, yn ddefnyddiol a chynigiodd IB gymorth y tîm data a digidol i gefnogi hyn. Cytunodd NL i gydweithio ar y dadansoddiad hwn ac i ymgorffori data ehangach ar lefel Cymru fel rhan o'r adroddiad nesaf.

Cam Gweithredu: NL

Llywodraethu clinigol



Amlygodd CB y canlynol o adran Llywodraethu Clinigol yr adroddiad:

- Cyfarfodydd wythnosol parhaus gyda thimau i fonitro ymholiadau llywodraethu gwybodaeth, gan ganolbwyntio ar ddeall natur ymholiadau, gwella amseroedd cyflawni ac uwchgyfeirio materion yn ôl yr angen. Nododd welliannau yn y meysydd hyn.
- Roedd ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI) yn dod yn fwy cymhleth, yn aml yn cynnwys nifer o bartneriaid a materion sensitif, sy'n cynyddu amseroedd ymateb ac weithiau'n gofyn am gyngor cyfreithiol.
- O ran achosion o dorri data, nododd y byddai adroddiadau yn y dyfodol yn cynnwys mwy o fanylion am nifer y bobl yr effeithiwyd arnynt a natur yr achosion o dorri data, gyda sicrwydd ychwanegol yn cael ei ddatblygu.
- Digwyddiad adroddadwy yn ymwneud â system Tarian, a oedd yn gofyn am ymarfer edrych yn ôl sylweddol ac adolygiad gan y Tîm Rheoli Digwyddiadau. Ychwanegodd MK nad oedd unrhyw effeithiau clinigol wedi'u canfod hyd yn hyn, ond bod yr adolygiad yn parhau.
- Dirywiad diweddar yng nghyfraddau cau digwyddiadau ar ôl cyfnod o welliant, gan briodoli hyn i gynnydd mewn adrodd am ddigwyddiadau a bylchau staffio yn ystod misoedd yr haf. Disgrifiodd gyfarfodydd diogelwch wythnosol i fynd i'r afael â digwyddiadau parhaus a chymhleth, yn enwedig mewn meysydd uchel eu defnydd.

Gofynnodd NE pryd y byddai'r ymarfer edrych yn ôl yn ymwneud â digwyddiad Tarian wedi'i gwblhau. Esboniodd MK fod miloedd o gofnodion yn y digwyddiad diweddaraf, a oedd yn ymwneud â thrigolion nad oeddent yn byw yng Nghymru, felly roedd yn hyderus y byddai'r hysbysiadau wedi cael eu trin yn Lloegr yn bennaf. Esboniodd fod y tîm yn ceisio datrys a ddylai Iechyd Cyhoeddus Cymru fod wedi ymdrin ag unrhyw un o'r achosion hynny yn y lle cyntaf oherwydd bod yr unigolyn naill ai; yng Nghymru neu mewn ysbyty yng Nghymru. Nododd MK y byddai'n holi'r tîm am yr amserlen ac yn adrodd yn ôl, ond roedd yn disgwyl y byddai'n cymryd rai misoedd.

Cam Gweithredu: MK

Cyllid

Amlygodd AW y canlynol o adran Gyllid yr adroddiad:

- Tanwariant refeniw bach ym mis pump a nodwyd bod y sefydliad yn mynd i mewn i gyfnod adolygu canol blwyddyn, gyda disgwyl data mis chwech yn fuan.
 - Cynlluniwyd trafodaethau ariannol manwl ac adolygiadau perfformiad gyda chyfarwyddiaethau i sicrhau bod y sefyllfa ddiwedd y flwyddyn yn cyd-fynd â'r cynllun ariannol.
- Rheolwyd cynnydd sylweddol yng nghyfraniadau Cronfa Risg Cymru drwy lithriad mewn buddsoddiadau a phwysau cost ac roedd adroddiad manwl ar hyn ar gael.
- Cafodd y sefyllfa gyfalaf, gan gynnwys cyfalaf dewisol a strategol, ei thrafod yn fanwl yn yr adroddiad ac roedd y fantolen yn dangos sefyllfa dda.

Cododd TC bryder ynghylch y cynnydd yng Nghronfa Risg Cymru, gan fynegi siom ynghylch y cynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn a'i effaith ar y cronfeydd sydd ar gael ar gyfer pwysau costau sefydliadol eraill. Eglurodd AW, er bod y cynnydd yn sylweddol, ei fod yn llai difrifol na rhai sefydliadau eraill, ond ei fod yn dal i gyflwyno pwysau cost i GIG Cymru.

Cyflenwi Gwasanaethau



Cyflwynodd AW yr adran Darparu Gwasanaeth, gan amlygu dau faes allweddol: aros am asesiad sgrinio'r fron ac aros am golonosgopi sgrinio'r coluddion.

Esboniodd MK fod heriau parhaus o ran cyrraedd targedau asesu sgrinio'r fron, yn enwedig yng ngogledd Cymru, oherwydd prinder gweithlu a dibyniaeth ar fewnbwn llawfeddygol ar gyfer clinigau. Roedd technoleg wedi helpu gyda chymorth cydfuddiannol ar gyfer darllen mamogram, ond roedd capasiti llawfeddygol yn parhau i fod yn broblem. Roedd cynlluniau ar waith i ymgysylltu â'r Bwrdd Iechyd Lleol (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) i fynd i'r afael â'r materion hyn yng ngogledd Cymru ac o bosibl eu cynyddu os oes angen.

Gofynnodd SG am safonau clinigol; eglurodd MK fod safonau clinigol yn cael eu gosod yn genedlaethol gan Bwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU, ond bod un uned yng ngogledd Cymru yn eu defnyddio'n fwy llym, gan gyfyngu ar hyblygrwydd ar gyfer clinigau a arweinir gan radioleg, a oedd yn arfer derbyniol mewn mannau eraill yn y DU.

Amlygodd SG bod angen mynd i'r afael â'r mater hwn ar frys a chadarnhodd MK y byddai llythyr yn cael ei anfon at y Cyfarwyddwr Meddygol newydd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar ôl iddo gyrraedd.

Ar gyfer sgrinio'r coluddyn, adroddodd MK am welliant yn amseroedd aros colonosgopi yn dilyn uwchgyfeirio ac ymgysylltu uniongyrchol â phob bwrdd iechyd. Roedd dysgu systematig wedi'i grynhoi ar gyfer arweinyddiaeth GIG Cymru a'i rannu â thimau lleol. Y prif ddibyniaeth yw gallu colonosgopydd i ymgymryd â'r gweithdrefnau hyn.

Gofynnodd SG a oedd arallgyfeirio'r gweithlu clinigol (e.e., colonosgopyddion anfeddygol) yn cael ei ystyried. Cydnabu TC fod arallgyfeirio grŵp aml-broffesiynol o golonosgopyddion sy'n cael eu llywodraethu'n glinigol wedi bod yn bwnc trafod rheolaidd ar draws pob bwrdd iechyd. Nododd TC nad yw Cymru mor flaengar yn y maes hwn ar hyn o bryd, ac un o'r prif heriau yw'r broses achredu hirfaith sy'n ofynnol ar gyfer ymarferwyr newydd. Pwysleisiodd TC yr angen i archwilio ffyrdd o gyflwynu'r broses hon. Dywedodd TC ymhellach y byddai MK yn mynychu'r Bwrdd Arweinyddiaeth ym mis Hydref ac y byddai'n gallu rhoi adborth ar yr awgrymiadau ynghylch arallgyfeirio'r gweithlu yn y fforwm hwnnw.

Gofynnodd CB a ddylem fel sefydliad fod yn gofyn mwy gan y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol. Gwnaed buddsoddiad tua 5 mlynedd yn ôl gyda llyf gwaith o fewn Gofal Cynlluniedig Personol ac Integredig y GIG ar gyfer uwchraddio'r gweithlu anfeddygol.

Cyflawni Strategaeth

Cyflwynodd AW yr adran, gan nodi ei bod yn ymdrin â diweddariadau ar bob blaenoriaeth strategol a'u statws cyflawni, gyda throsolwg a naratif clir yn cael eu darparu ar gyfer pob un.

Nododd NE fod sawl cam gweithredu bellach wedi'u graddio'n ambr, yn bennaf oherwydd problemau capasiti, a heriodd y tîm i fyfyrto a oedd y rhain yn broblemau capasiti gwirioneddol neu'n broblemau cynllunio, gan gyfeirio at sicrwydd cynharach ynghylch cael digon o gapasiti ar ddechrau'r flwyddyn.

Ymatebodd TC, er bod y rhan fwyaf o'r camau gweithredu yn wyrdd, fod y Tîm Gweithredol Busnes yn adolygu ceisiadau am amrywiad yn fisol ac yn olrhain a herio camau gweithredu

sy'n gofyn am estyniadau i'r flwyddyn nesaf. Cydnabu fod rhai achosion o oedi oherwydd rhyngddibyniaethau, megis aros am gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru, ond cytunodd i ymchwilio'n fanwl yng nghanol y flwyddyn i gamau gweithredu ambr a choch i ddeall yr achosion yn well ac adrodd yn ôl i'r Bwrdd. Pwysleisiodd y drafodaeth bwysigrwydd gwahaniaethu rhwng oedi anochel ac oedi y gellid bod wedi'i ragweld neu gynllunio ar ei gyfer, gydag ymrwymiad i wella olrhain ac adrodd ar y materion hyn.

Cam Gweithredu: AW

Mesur Canlyniadau

Nododd AW fod yr adran hon wedi'i chyflwyno i ddarparu'r diweddariadau diweddaraf ar fesurau canlyniad, gyda'r rhan fwyaf o ddangosyddion heb symud yn sylweddol i'r cyfeiriad a ddymunir. Heriodd TC y tîm i sicrhau bod camau gweithredu yn cael yr effaith a fwriadwyd ar ganlyniadau ac i sicrhau bod blaenoriaethau'n cael eu cysylltu â chanlyniadau mesuradwy.

Amlygodd SG y data anghydraddoldebau, gan nodi'r map llwm sy'n dangos Wrecsam fel un o'r ardaloedd tlotaf a'r bwch disgwyliaid oes iach cynyddol, yn enwedig ar gyfer cancer. Disgrifiwyd hyn fel mater hirhoedlog, sydd wedi hen ymsefydlu.

Esboniodd SA fod y dadansoddiad o anghydraddoldebau wedi defnyddio data'r Sefydliad Iechyd a Chanfod, hyd yn oed ar ôl ystyried statws economaidd-gymdeithasol, mudo ac ethnigrwydd, fod gwahaniaethau anesboniadwy yn parhau, gan amlygu cymhlethdod yr her.

Pwysleisiodd JM yr angen i godi disgwyliaid ar gyfer iechyd yng Nghymru, gan nodi problem ddiwylliannol o ddisgwyl llai ac eiriodd dros gamau gweithredu wedi'u targedu ar draws y system dros y 5–10 mlynedd nesaf i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd sydd wedi hen ymsefydlu.

Daeth y drafodaeth i'r casgliad bod angen mwy o ddata ac ymgysylltu â chymunedau a'r trydydd sector i sbarduno gwelliant a bod yn rhaid i'r sefydliad ysgogi ymdrechion i atal dirywiad pellach mewn clefydau ambrosoglwyddadwy a chanlyniadau cancer.

Nododd y Bwrdd Sefyllfa Ariannol Mis 5 a'r atodiad a chymerodd **sicrwydd** ynghylch perfformiad, trefniadau llywodraethu a chynnydd y Sefydliad o ran cyflawni ei strategaeth.

Egwyl

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/4.4	Fframwaith Adolygu Bron Brawf Cymru
---	--

Cyflwynodd MK yr adroddiad a gyflwynwyd fel gwerthusiad systematig o raglen Bron Brawf Cymru wedi ysgogi gan ddigwyddiadau diweddar (gan gynnwys arolygiadau ac adolygiad Gateway), a amlygodd feysydd ar gyfer gwella perfformiad a busnes. Nod yr adolygiad yw sicrhau bod y rhaglen yn effeithlon, yn effeithiol ac yn bodloni safonau ansawdd, gan ddefnyddio fframwaith STEEP (Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg, Canolbwyntio ar yr Unigolyn).

Roedd yr amcanion yn cynnwys adolygu'r llwybr o'r dechrau i'r diwedd, cryfhau llywodraethu, asesu cydymffurfiaeth â safonau cenedlaethol a datblygu cynllun gwella â blaenoriaeth. Byddai'r adolygiad yn cael ei arwain gan Tom Fowler a Michelle Battlemuch, gyda chyfranogiad traws-sefydliadol a diweddariadau misol i'r tîm gweithredol. Y cyfnod disgwyliedig oedd tri i bedwar mis.

Pwysleisiodd HD bwysigrwydd sicrhau bod mewnbyn gan ddefnyddwyr (claf) a phartneriaid (e.e. gofal sylfaenol) wedi'i gynnwys, gydag awgrymiadau i ddefnyddio cwynion, digwyddiadau ac ymgysylltiad uniongyrchol i gael mewnwelediadau cyfoethocach. Awgrymodd hefyd archwilio arferion gorau yn rhyngwladol lle bo modd ac archwilio mewnwelediadau gan Ganolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd. Nododd TC y byddai meincnodi rhyngwladol yn ddefnyddiol, er bod gwahaniaethau mewn safonau a modelau cyflawni yn cael eu cydnabod.

Awgrymodd NE y byddai gwerth mewn cynnwys arbenigwr allanol o wasanaeth arall, megis Iechyd Cyhoeddus yr Alban, yn y tîm adolygu i roi mewnwelediadau gwrthrychol ac osgoi rhagfarn fewnol. Ar wahân i hyn, nododd y byddai hefyd yn ddefnyddiol ystyried sut y byddai'r gwasanaeth yn ymgorffori sicrwydd ansawdd allanol

Cytunodd MK i adolygu awgrymiadau'r Bwrdd a'u hymgorffori, gyda TC yn crynhoi'r camau nesaf: ymgorffori profiad y defnyddiwr, chwilio am arbenigwr allanol dibynadwy a mynd ar drywydd meincnodi rhyngwladol.

Nododd y Bwrdd a chymerodd sicrwydd ar Gomisiwn yr Adolygiad gan y Tîm Gweithredol Busnes ac **ystyriodd a nododd** ddyraniad yr adnoddau sydd eu hangen ar gyfer yr adolygiad. **Nododd** y Bwrdd a **chymerodd sicrwydd** ynghylch mabwysiadu'r Fframwaith a gynigiwyd ar gyfer yr Adolygiad.

Iechyd Cyhoeddus Cymru | Pwyllgorau'r Bwrdd: Adroddiad gan Gadeiryddion
2025.09.25/4.5 | Pwyllgorau

Cyflwynodd CJ yr Adroddiad a gwahoddodd aelodau'r Pwyllgor i amlygu unrhyw eitemau o'u cyfarfodydd Pwyllgor priodol.

Nododd CJ gyfarfod diweddar y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella a oedd yn canolbwyntio ar yr adroddiad Ansawdd Blynyddol, a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn ddiweddarach yn yr agenda.

Rhoddodd SG ddiweddariad llafar ar gyfarfod y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd a gynhaliwyd ar 23 Medi, gan amlygu'r canlynol:

- Ymchwiliad dwfn i ofal sylfaenol, gan dynnu sylw at waith ymchwil a gwerthuso cryf a'r angen am ddata gofal sylfaenol gwell, a oedd yn parhau i fod yn her barhaus.
- Cydnabyddiaeth o gryfder ymchwil iechyd cyhoeddus deintyddol.
- Sicrwydd ar gynnydd y rhaglen ddata a diweddariadau ar iechyd meddwl a genomeg, gydag argymhelliad i'r cynllun genomeg gael ei anfon allan i ymgynghoriad a'i ddychwelyd i'w gwblhau.
- Adolygiad o gyflenwi digidol a data, gan sôn am Ddeallusrwydd Artiffisial a gwaith rhyngwladol a llongyfarchiadau ar gyflawniad canolfan Sefydliad Iechyd y Byd.

Diolchodd CJ i bawb am y diweddariadau.

Nododd y Bwrdd yr adroddiad a derbyniodd **sicrwydd** o'r cynnwys a'r diweddariadau a ddarparwyd yn y cyfarfod.



Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/4.6	Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Ansawdd
<p>Wrth gyflwyno'r Adroddiad, eglurodd CB mai dyma'r ail flwyddyn o adrodd ar y Ddeddf Dyletswydd Ansawdd, gan gwmpasu gwaith gwella ar draws y sefydliad gan ddefnyddio STEEP (Diogel, Amserol, Effeithiol, Effeithlon, Teg, Canolbwyntio ar yr Unigolyn) a meysydd galluogi. Roedd yr adroddiad yn cynnwys straeon ac enghreifftiau am ecwiti o bob cyfarwyddiaeth, gyda mewnbwn gan y Grŵp Goruchwylio Ansawdd a chefnogaeth allanol i fireinio iaith a dangos y daith wella.</p> <p>Bwriadwyd yr adroddiad ar gyfer y cyhoedd, gan bwysleisio iaith glir ac arddangos cyflawniadau technegol. Soniwyd am gynlluniau i archwilio fformat mwy rhyngweithiol, sy'n seiliedig ar y we yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd CB fod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi adolygu a chymeradwyo'r adroddiad o'r blaen.</p> <p>Diolchodd CJ i CB am yr adroddiad a gwnaeth sylwadau ar led ac ansawdd yr adroddiad.</p> <p>Adleisiodd TC hyn, gan nodi pwysigrwydd arddangos gwaith sefydliadol ac awgrymu asesiad anabled gweledol i sicrhau hygrychedd i ddarllenwyr â nam ar eu golwg.</p> <p>Nododd a chymerodd y Bwrdd sicrwydd bod y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella wedi cymeradwyo drafft terfynol yr Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2024-2025 (i'w gyhoeddi yn unol â gofynion y Ddyletswydd Ansawdd).</p>	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/5	Eitemau i'w Cymeradwyo
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/5.1	Cofnodion a Log Gweithredu o Gyfarfodydd y Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2025
<p>Cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion Cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 31 Gorffennaf 2025 fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p> <p>Ystyriodd y Bwrdd y Camau Gweithredu agored ar y Log Gweithredu a chymeradwyodd gau'r camau gweithredu oedd wedi'u cwblhau ac un newid dyddiad oedd yn ymwneud â'r adolygiad sgrinio.</p>	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/5.2	Cytundeb Lletya Perfformiad a Gwella'r GIG
<p>Cyflwynodd PV gytundeb Lletya Perfformiad a Gwelliant y GIG i'w gymeradwyo. Amlygodd y newidiadau ers yr adolygiad diwethaf gan y Bwrdd, gan gynnwys ailenwi Gweithrediaeth y GIG, newidiadau swyddogaethol a phenodi Rheolwr Gyfarwyddwr. Roedd y cytundeb bellach yn adlewyrchu'r diweddariadau a'r newidiadau hyn mewn cyfrifoldebau Gweithredol.</p> <p>Nododd PV nad oedd y ffi lletya wedi'i chwblhau eto ond bod cytundeb ar fin digwydd; roedd NL mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru i sicrhau adnoddau digonol ar gyfer mewnbwn Pobl a Datblygu Sefydliadol, a disgwylir y bydd yn uwch nag a gynlluniwyd yn wreiddiol.</p> <p>Cymeradwyodd y Bwrdd Gytundeb Lletya Perfformiad a Gwella GIG Cymru diwygiedig a dirprwyodd y gwaith o gymeradwyo'r ffi lletya i'r Prif Weithredwr.</p>	

Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/5.3	Polisi Rheoli Risg
<p>Cyflwynodd CB y Papur Polisi Rheoli Risg gan egluro bod y polisi wedi'i ddiweddarau yn adlewyrchu aeddfedrwydd risg cynyddol, yn diweddarau rolau a chyfrifoldebau, yn cryfhau'r defnydd o datix ac yn symleiddio cofrestrau risg sefydliadol. Roedd hefyd yn cynnwys newidiadau ynghylch hyfforddiant ac yn cyd-fynd ag arferion sefydliadol cyfredol. Roedd Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb ac Ansawdd Iechyd yn cyd-fynd â'r polisi.</p> <p>Cododd NE bwynt bach ynglŷn â chael gwared ar y gair interim o deitlau swyddi yn y polisi a nododd TC fod gwall yn y teitl ar gyfer MK.</p> <p>Y Bwrdd</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ystyriodd y wybodaeth a gynhwysir yn y Polisi Rheoli Risg a'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1) • Nododd fod y Tîm Arweinyddiaeth wedi cymeradwyo'r polisi ar weithdrefn yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2025. • Nododd y bydd y Weithdrefn yn cael ei chyflwyno i'w chymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 30 Medi 2025. • Cymeradwyodd y polisi fel y'i diwygiwyd (Atodiad 1), yn amodol ar y mân newidiadau a drafodwyd a dirprwywyd y gwaith o ddiweddarau teitlau i'r Tîm Gweithredol i'w diwygio o fewn y ddogfen. 	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/5.4	Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin
<p>Cyflwynodd PV yr adroddiad, gan geisio cadarnhad gan y Bwrdd ar un defnydd o osod y sêl gyffredin.</p> <p>Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw achlysur lle cymerwyd Camau Gweithredu'r Cadeirydd ers cyfarfod y Bwrdd ym mis Gorffennaf;</p> <p>Nododd y Bwrdd fod un defnydd wedi'i wneud o'r Sêl Gyffredin i adrodd i'r Bwrdd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dechrau prydles newydd ar gyfer Rhif 3 Parc Dewi Sant, Caerfyrddin. • Bod hyn wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd ar 31 Gorffennaf 2025. <p>Cymerodd y Bwrdd sicrwydd bod y camau gweithredu wedi'u cymryd yn unol ag Adran 8 o'r Rheolau Sefydlog.</p>	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/6	Eitemau i'w Nodi
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/6.1	Adroddiad Cadeiryddion Preifat (31 Gorffennaf 2025)
<p>Nododd y Bwrdd Adroddiad y Cadeiryddion Preifat.</p>	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/6.2	Blaengynllun y Bwrdd
<p>Nododd y Bwrdd Flaengynllun y Bwrdd.</p>	



Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/6.3	Papurau preifat y Bwrdd
Nid oedd unrhyw bapurau o agenda Preifat y Bwrdd i'w cyhoeddi.	
Iechyd Cyhoeddus Cymru 2025.09.25/7	Dyddiad y Cyfarfod Bwrdd Ffurfiol Nesaf
Diolchodd PB i bawb am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.	
Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 27 Tachwedd 2025.	
Daeth y cyfarfod i ben am 14:15.	

Heb eu Cadarnhau